DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Goodwin Partnership

17 Mehefin 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk

Digidol ISBN 978-1-4734-3957-3
© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Methodoleg ........ 2

3. Cyd-destun ........ 4

4. Crynodeb ........ 5

5. Canfyddiadau ........ 6

Profiad y Claf ........ 6

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ........ 8

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 12

Ansawdd yr Amgylchedd ........ 16

6. Y Camau Nesaf ........ 17

Atodiad A ........ 18

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o'r Goodwin Partnership, yn Fairwater Square, Fairwater, Cwmbrân, NP44 4TA, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, ar 17 Mehefin 2015.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/how-the-health-and-care-standards-are-st

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae’r Goodwin Partnership yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Cwmbrân, Torfaen. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae’r Goodwin Partnership yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG. Darperir amrywiaeth o wasanaethau.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys saith deintydd, deg nyrs ddeintyddol, rheolwr practis, a dau dderbynnydd.

## 4. Crynodeb

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y Goodwin Partnership yn bodloni'r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015).

Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r driniaeth. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel ar gyfer cleifion. Canfuom fod y cyfleusterau clinigol o safon uchel, a bod y cyffuriau brys wedi'u trefnu mewn ffordd arbennig o dda. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig mewn ffordd ddiogel, dadebru a chymorth cyntaf, gwaredu ar wastraff, a dadheintio. Roedd agweddau ar gofnodion y cleifion a oedd angen eu gwella.

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a brwdfrydig a oedd yn canolbwyntio ar y claf, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi. Canfuom fod y broses rheoli cwynion yn enwedig yn canolbwyntio ar y claf. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer cynnal gwiriadau a bodloni gofynion wrth recriwtio staff. Roedd angen gwella agweddau ar drefniadau amddiffyn oedolion, y systemau yn ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, a manylion bach yn y broses gwyno. Roedd systemau monitro a gweinyddu cadarn ar waith.

Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel a chroesawgar ar gyfer gleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Ar y cyfan, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y practis ac ar safon y gofal a'r driniaeth. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn groesawgar ac yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd y gwasanaeth yn gwahodd cleifion i roi adborth er mwyn gwella'r gwasanaethau.**

Gwnaethom anfon holiaduron cleifion i'r practis, ac roedd 33 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Roedd y cleifion wedi'u cofrestru yn y practis ers rhwng 15 mis a 47 o flynyddoedd.

Dywedodd mwyafrif helaeth y cleifion eu bod yn fodlon ar y driniaeth roeddent wedi'i derbyn yn y practis, a'u bod yn derbyn croeso mawr gan y staff. Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae hwn yn bractis gwych – mae'r ffaith fy mod i wedi bod gyda nhw ers 40 mlynedd yn dyst i'r gwasanaeth a ddarperir"*
>
> *"Rydw i bob amser wedi cael fy nhrin â pharch"*
>
> *"O ystyried pa mor brysur yw'r practis, mae'r tîm bob amser yn fodlon helpu gydag unrhyw gwestiynau neu broblemau a all godi"*
>
> *"Mae'r staff i gyd yn hynaws ac yn rhoi croeso mawr imi"*
>
> *"Rydw i'n bles iawn ar y driniaeth rydw i a'm plant wedi'i derbyn"*
>
> "Mae staff o bob gradd bob amser yn barod eu cymwynas ac yn ystyriol. Mae staff y dderbynfa bob amser yn siriol ac yn garedig, ac yn mynd y filltir ychwanegol! Roedd y deintydd yn esbonio pob cam o'r driniaeth ac yn gwneud imi deimlo'n gysurus. Dw i byth yn teimlo pe bai mai dim ond claf arall ydw i!"

Dywedodd traean o'r cleifion eu bod wedi profi oedi wrth aros i weld y deintydd, er bod y rhan fwyaf o'r cleifion yn dweud nad oedd hyn yn broblem. Roedd y sylwadau a gafwyd yn cynnwys y canlynol:

> *"Ar y cyfan yn dda iawn, ond mae wedi gwaethygu'n ddiweddar, gydag apwyntiadau'n cael eu canslo'n hwyr"*

*"Fel arfer, mae oedi wrth aros am apwyntiad"*

Pan wnaethom ofyn i'r cleifion ynglŷn â gwybodaeth am driniaethau, dywedodd yr holl gleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth roedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl. Roedd sylwadau'r cleifion ynglŷn â gwybodaeth am driniaethau'n cynnwys y canlynol:

*"Mae'r staff bob amser wedi sicrhau fy mod yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel, a fy mod i'n derbyn digon o wybodaeth"*

*"Rhoddir yr holl wybodaeth sydd ei hangen"*

*"Mae'r deintydd yn hyfryd ac yn egluro popeth ichi"*

Roedd tua dwy ran o dair o'r cleifion yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau, a dywedodd rhai o'r cleifion nad oeddent yn gwybod y byddent yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth pe bai ei hangen. Gwnaethom wirio neges peiriant ateb y practis y tu allan i oriau'r swyddfa, a chawsom fod gwybodaeth wedi'i recordio ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw y tu allan i oriau gwaith. Roedd y wybodaeth hon hefyd wedi'i harddangos yn y practis.

Roedd y practis yn cynnig apwyntiadau rheolaidd ac apwyntiadau brys, a gwnaeth un claf gadarnhau ei fod wedi llwyddo i drefnu apwyntiad brys ar y dydd. Roedd y practis ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 9am a 5pm.

Dywedodd tua dwy ran o dair o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn, pe bai angen gwneud hynny. Gwnaeth y rhan fwyaf o'r cleifion nad oeddent yn gwybod sut i wneud hynny ddweud y byddent y hyderus wrth geisio'r wybodaeth hon gan y practis pe bai angen. Gwelsom fod y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos yn glir ar yr hysbysfyrddau yn y mannau aros, ac roedd rhywfaint o wybodaeth ar gael yn y taflenni gwybodaeth i gleifion.

Roedd y practis yn cynnal arolygon cleifion parhaus, a oedd wedi cael eu haddasu dros y blynyddoedd er mwyn casglu cymaint o wybodaeth fanwl ag y bo modd gan gleifion ynglŷn â'u profiadau yn y practis. Roedd staff hefyd yn casglu adborth anffurfiol yn ganolog yn y dderbynfa. Roedd hyn yn golygu bod trefniadau cadarn ar waith er mwyn casglu barn cleifion am y practis, a bod y practis y defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn gwella'r gwasanaeth.

Roedd amrywiaeth eang o ddeunydd hyrwyddo iechyd ar gael yn y dderbynfa/man aros. Roedd taflenni gwybodaeth i gleifion ar gael a oedd yn cynnwys crynodeb o wybodaeth ddefnyddiol am y practis.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu yn unol â'r safonau a'r gofynion perthnasol yn y meysydd a arolygwyd gennym, gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel o ansawdd uchel ar gyfer cleifion. Canfuom fod y cyfleusterau clinigol o safon uchel, a bod y cyffuriau brys wedi'u trefnu mewn ffordd arbennig o dda. Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig mewn ffordd ddiogel, dadebru a chymorth cyntaf, gwaredu ar wastraff, a dadheintio. Roedd agweddau ar gofnodion y cleifion a oedd angen eu gwella.**

### Cyfarpar/Dogfennaeth Radiograffig

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd y dogfennau perthnasol ar gael, gan gynnwys gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw, a phrofion, ac roedd y staff wedi mynychu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio.

Gwelsom fod arwyddion wedi'u harddangos er mwyn nodi'r mannau neilltuedig a reolir, lle roedd offer radiograffig yn cael eu defnyddio.

Roedd y practis wedi dilyn gweithdrefn briodol er mwyn hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ei fod yn defnyddio offer radiograffig. Roedd archwiliadau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal er mwyn monitro ansawdd y radiograffau, a sicrhau bod yr offer yn gweithio'n iawn.

### Dadebru a chymorth cyntaf

Canfuom fod polisi dadebru ar waith. Roedd un o'r aelodau o staff yn swyddog cymorth cyntaf dynodedig ar y safle, ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddiweddar. Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar dadebru priodol pe bai argyfwng meddygol (llewygu). Roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru o fewn y flwyddyn diwethaf, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU). Roedd hyn yn golygu bod staff wedi eu hyfforddi a bod y cyfarpar ganddynt i reoli argyfyngau meddygol.

### Cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys

Roedd y cyffuriau brys wedi eu storio'n drefnus mewn lleoliad da a oedd yn ddiogel. Roedd system ar waith ar gyfer monitro dyddiadau dod i ben cyffuriau'n rheolaidd, gan berson dynodedig, ac roedd yr holl gyffuriau a welsom o fewn eu dyddiad dod i ben. Roedd y padiau rhagnodi hefyd wedi'u cadw'n ddiogel er mwyn atal pobl rhag mynd atynt heb awdurdod. Roedd system gadarn ar waith

ar gyfer ymateb i unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau, ac i adrodd y digwyddiadau hyn.

**Trin, storio a gwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus**

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff clinigol cyfredol ar waith. Roedd polisi a gweithdrefn gyfredol ar waith er mwyn sicrhau bod amalgam yn cael ei drin mewn ffordd ddiogel.[4]

**Dadheintio offer a chydymffurfiad â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (adolygiad 1)**

Roedd y practis yn cynnal y broses o ddadheintio offerynnau deintyddol yn yr ystafelloedd triniaeth, gyda rhan o'r broses yn cael ei chynnal mewn dwy ystafell driniaeth ddynodedig, ac ynddynt y cyfarpar priodol. Dywedodd staff wrthym eu bod yn bwriadu symud i un ystafell ddadheintio. Byddai hyn yn unol â'r arferion gorau. Gwnaeth staff ddangos y gweithdrefnau dadheintio maent yn eu dilyn er mwyn inni weld fel y maent yn gweithio mewn gwirionedd.

Roedd staff yn cludo offerynnau deintyddol rhwng yr ystafelloedd triniaeth mewn cynwysyddion wedi'u selio, ac roedd offerynnau glân yn cael ei storio'n briodol. Roedd sinciau neilltuedig ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth ar gyfer golchi dwylo, ac roedd cyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff. Roedd pob offeryn deintyddol yn cael ei fagio ar ôl iddo gael ei sterileiddio, ac arno ddyddiad prosesu. Roedd yr holl offer a wiriwyd o fewn eu dyddiad, ac roedd system fewnol ar waith i wirio hyn, gydag amserlenni addas wedi eu nodi. Roedd hyn yn golygu bod prosesau addas ar waith i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio.

Gwelsom fod pob aelod o staff sy'n cyflawni gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant priodol i ddangos eu bod yn gymwys wrth eu dyletswyddau.

Gwelsom fod llyfrau cofnodion ar gyfer glanhau offer wedi cael eu cynnal yn briodol, a bod y staff wedi cynnal gwiriadau dyddiol ar ddechrau ac ar ddiwedd pob dydd.

[4] **Amalgam**. Mae amalgam yn disgrifio amryw aloeon o fercwri a metelau eraill a ddefnyddir ar gyfer llenwadau deintyddol.

Gwelsom fod y practis wedi cynnal archwiliadau o'i ofynion rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn golygu bod systemau ar waith i fonitro cydymffurfiad parhaus â gofynion rheoli heintiau.

**Cyfleusterau clinigol**

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a gweld eu bod yn lân, yn daclus ac yn drefnus, a'u bod yn cynnwys yr holl gyfarpar perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff.

Roedd niferoedd digonol o offerynnau deintyddol a chyfarpar, i gyd mewn cyflwr da, wedi eu storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwelsom gyflenwad digonol o eitemau un tro a chyfarpar diogelu.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y cywasgydd (dyfais sy'n cywasgu aer i'w storio ac sy'n cael ei ddefnyddio i bweru offer llaw deintyddol ac amryw offerynnau deintyddol eraill) wedi'i gynnal a'i gadw, a'i archwilio, yn unol â'r gofynion.

Gwelsom dystiolaeth hefyd bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal, er mwyn gwirio bod dyfeisiau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Ar y cyfan, canfuom fod y cyfleusterau clinigol o safon uchel.

**Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Ar y cyfan, roedd safon cofnodion y cleifion yn y practis yn dda.

Roedd cofnodion yn dangos bod y deintyddion yn diweddaru hanes meddygol cleifion ar gyfer pob apwyntiad. Gwelsom fod hanesion cymdeithasol cleifion yn cael eu hystyried, a lle bo hynny'n briodol, roedd y cleifion yn cael cyngor am roi'r gorau i ysmygu. Roedd y deintyddion yn gwneud atgyfeiriadau priodol at weithwyr iechyd proffesiynol eraill yn ôl y gofyn.

Canfuom nad oedd deintyddion yn cofnodi cynlluniau triniaeth ac opsiynau triniaeth yn ddigon manwl bob tro er mwyn rhoi tystiolaeth bod y claf wedi derbyn digon o wybodaeth cyn rhoi cydsyniad, na digon o wybodaeth am y driniaeth a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd. Gwnaethom drafod hyn â'r prif ddeintydd, a chytunodd yntau y byddai'n trafod y mater hwn â'r staff.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r deintyddion sicrhau eu bod yn cofnodi digon o fanylion ar gyfer opsiynau triniaeth a'r driniaeth a ddarparwyd yng nghofnodion y cleifion.***

Ar y cyfan, canfuom fod deintyddion yn cofnodi radiograffau mewn ffordd glir, ond ar un sampl fach gwelsom nad oedd canfyddiadau clinigol y radiograff wedi cael eu cofnodi.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i bob deintydd gofnodi'r canfyddiadau clinigol sy'n deillio o radiograffau yng nghofnodion y claf, a hynny ar gyfer pob sgan pelydr-X.***

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dîm o staff ymroddedig a brwdfrydig a oedd yn canolbwyntio ar y claf, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu swyddi. Canfuom fod y broses rheoli cwynion yn enwedig yn canolbwyntio ar y claf. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer cynnal gwiriadau a bodloni gofynion wrth recriwtio staff. Roedd angen gwella agweddau ar drefniadau amddiffyn oedolion, y systemau yn ymwneud â'r Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd, a manylion bach yn y broses gwyno. Roedd systemau monitro a gweinyddu cadarn ar waith.**

**<u>Staff</u>**

Roedd y practis wedi bod yn gweithredu ers dros 30 mlynedd, a chymerodd y perchennog presennol dros y practis yn 1980. Roedd y practis yn darparu gwasanaethau'r GIG yn bennaf. Roedd rheolwr practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig, yn ymroddedig, ac yn canolbwyntio ar y cleifion, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

Roedd pob deintydd wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a gwelsom sampl o gontractau cyflogi'r gweithwyr. Gwelsom fod gan yr holl staff clinigol yswiriant indemniad ar gyfer eu gwaith clinigol.

Ar adeg ein harolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn unol â rheoliadau deintyddiaeth breifat. Gwelsom fod staff wedi gwneud cais i ddiweddaru eu tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd lle bo angen gwneud hynny.

Gwelsom fod tystysgrifau ar gyfer pob un o'r deintyddion, yn cadarnhau eu cofrestriad gydag AGIC, wedi'u harddangos yn y practis, fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Gwnaethom hysbysu'r practis bod angen diweddaru tystysgrif un o'r deintyddion, er mwyn sicrhau bod cyfeiriad cywir y practis wedi'i nodi. Cytunodd y practis i drefnu hynny.

Gwelsom gofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau er mwyn sicrhau bod staff yn cael eu hamddiffyn rhag clefydau a gludir yn y gwaed.

Gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus a oedd wedi'i gwblhau gan y staff clinigol. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi.

Gwelsom gofnodion o'r cyfarfodydd tîm, a dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Gwelsom fod amrywiaeth o bynciau perthnasol yn cael eu trafod, a bod aelodau o'r tîm yn cyflwyno eu pryderon a'u testunau eu hunain i'w trafod. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd rhai arferion wedi newid o ganlyniad i drafodaethau mewn cyfarfodydd tîm. Roedd hyn y golygu bod gan y tîm le mwy ffurfiol i drafod pryderon, a'u bod yn dysgu o ganlyniad er mwyn gwella'u harferion.

Dywedodd aelodau o staff wrthym eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd, a gwelsom gofnodion a oedd yn cadarnhau hyn. Roedd hyn yn golygu bod gan staff fynediad at gyfarfodydd ffurfiol er mwyn derbyn cymorth a datblygiad proffesiynol.

**<u>Amddiffyn plant ac oedolion</u>**

Gwelsom fod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant. Roedd polisi amddiffyn plant ac oedolion ar waith, ac roedd manylion cyswllt timau plant lleol wedi'u harddangos, er mwyn dod o hyd iddynt yn hawdd, pe bai angen ar staff wneud atgyfeiriad.

Roedd y prif ddeintydd wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, ac roedd yn arwain ar y materion hyn yn ogystal â rhaeadru gwybodaeth i staff. Dywedodd tîm y practis wrthym eu bod wedi profi trafferth cael mynediad at hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, ond eu bod wedi trefnu cwrs ar gyfer staff ym mis Hydref 2015. Gwnaethom argymell bod y practis yn cael gafael ar y manylion cyswllt ar gyfer gwneud atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, ac ychwanegu'r rhain at y polisi diogelu er mwyn dod o hyd iddynt yn hawdd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed er mwyn iddynt allu adnabod problemau a phryderon, a chymryd y camau sydd eu hangen.***

**Cwynion a sicrhau ansawdd**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar y weithdrefn gwyno a gweld ei bod yn cydymffurfio â gofynion 'Gweithio i Wella'[5] y GIG. Roedd gweithdrefn gwyno ar wahân ar waith a oedd yn ymdrin â'r trefniadau gwahanol ar gyfer cleifion preifat, ac roedd hon yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008. Roedd y gweithdrefnau'n cynnwys manylion ynglŷn â sut i uwchgyfeirio cwyn, ond canfuom nad oedd y llwybrau uwchgyfeirio gwahanol ar gyfer gleifion y GIG a chleifion preifat yn glir. Dylid hefyd gynnwys manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned yn y wybodaeth ynglŷn â gwneud cwyn, er mwyn i gleifion gwybod sut i gael mynediad at gymorth wrth iddynt wneud cwyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i weithdrefnau cwyno nodi'n glir y llwybrau uwchgyfeirio gwahanol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat.Dylid ychwanegu gwybodaeth am y cyngor iechyd cymuned at y wybodaeth am wneud cwyn.***

Gwelsom fod cwynion yn cael eu cofnodi'n glir a chyda manylion ardderchog am y camau yr oedd y practis wedi eu cymryd i ymdrin â chwynion. Roedd y cwynion yn cael eu cadw'n ganolog, ar wahân i gofnodion y cleifion. Roedd cwynion llafar a chwynion anffurfiol hefyd yn cael eu cofnodi a'u cadw'n ganolog. Wrth inni drafod â staff a chraffu ar gofnodion cwyno, rhoddwyd sicrwydd inni fod ymroddiad i ddatrys cwynion mewn ffordd drwyadl, a oedd yn canolbwyntio ar y glaf. Gwelsom hefyd fod cwynion yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd tîm er mwyn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o ganlyniad iddynt. Roeddem o'r farn bod y broses rheoli cwynion y practis yn faes o arfer nodedig.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gyfforddus yn codi unrhyw bryderon gyda'r rheolwyr ac yn uniongyrchol gyda'r deintyddion. Roedd polisi chwythu'r chwiban wedi'i sefydlu, a gallai'r staff ei ddefnyddio i nodi ac i uwchgyfeirio pryderon yn ffurfiol. Roedd hefyd blwch awgrymiadau ar gyfer staff, ac roedd hyn yn fodd arall o gyfathrebu a oedd yn agored i staff.

Gwelsom fod adolygiadau ac archwiliadau gan gymheiriaid wedi digwydd yn y practis. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis systemau ar waith i fonitro

[5] Nod **Gweithio i Wella** oedd ei wneud yn haws i gleifion a gofalwyr leisio pryderon. Cyflwynodd ddull unigol a mwy cyfannol, gan ddod â'r broses o reoli cwynion, digwyddiadau a honiadau at ei gilydd, yn seiliedig ar yr egwyddor 'archwiliwch unwaith, archwiliwch yn dda'.

ansawdd y gwasanaethau yr oeddent yn eu darparu, er mwyn sicrhau eu bod yn gwella'n barhaus.

**<u>Polisïau a gweithdrefnau</u>**

Ar y cyfan, gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith, a'u bod wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru. Canfuom fod y polisïau'n glir, yn fanwl, ac yn benodol i'r practis.

Gwelsom hefyd fod ffeil Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd ar waith, a oedd yn cynnwys manylion sylweddau peryglus a oedd yn cael eu defnyddio yn y practis, pe bai cleifion yn cael eu niweidio. Canfuom nad oedd y ffeil hon wedi cael ei diweddaru er mwyn iddi gynnwys sylwedd peryglus i iechyd a oedd wedi cael ei ychwanegu'n ddiweddar.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod manylion sylweddau sy'n dod o dan y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn cael eu diweddaru.***

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gwelsom fod y practis yn darparu amgylchedd diogel a chroesawgar ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth.**

Lleolir y practis yn ardal Cwmbrân, Torfaen. Roedd y practis ar y llawr cyntaf. Roedd lle i barcio am ddim gerllaw.

Nid oedd y practis yn addas ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn, na phobl sydd ag anawsterau symudedd difrifol, oherwydd grisiau cul sy'n arwain at y practis ar y llawr cyntaf. Roedd y prif ddeintydd wedi archwilio ffyrdd o wneud y practis mor hygyrch ag y bo modd, ond roedd cyfyngiadau oherwydd yr amgylchedd ffisegol. Roedd staff yn cyfeirio unrhyw gleifion a allai gael trafferth gyda'r grisiau at bractis lleol arall sy'n hygyrch.

Canfuom fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n foddhaol y tu mewn a'r tu allan, ac roedd wedi cael ei ailwampio yn 2008, gan ddarparu amgylchedd modern a chyfforddus. Yn fewnol, roedd yr amgylchedd yn ddigon golau, cynnes, glân, a thaclus, ac roedd digon o awyr iach.

Roedd gwybodaeth ddefnyddiol i'r cleifion wedi'i harddangos y tu allan a'r tu mewn. Roedd arwydd y tu allan i'r practis gydag enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion, yn ogystal â'r amseroedd agor a'r rhifau cyswllt y gallai'r cleifion eu ffonio mewn argyfwng. Roedd bandiau prisiau ar gyfer triniaethau'r GIG a rhestr brisiau ar gyfer triniaeth breifat wedi'u harddangos yn glir yn y dderbynfa.

Roedd cyfleusterau addas a digonol ar gyfer staff, a thŷ bach ar wahân ar gyfer y staff. Roedd y tai bach i'w gweld yn lân, ac roeddent yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio.

Roedd y man aros yn addas ar gyfer nifer y cleifion a oedd yn mynychu'r practis ar ddiwrnod ein harolygiad. Roedd staff y dderbynfa'n ymwybodol o sut i gynnal cyfrinachedd cleifion. Roedd yr ystafell aros yn cynnwys deunyddiau darllen, a phosteri a thaflenni hyrwyddo iechyd.

Roedd arwydd ar gyfer yr allanfa dân, ac roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu harchwilio. Roedd mesurau diogelwch priodol ar waith er mwyn rhwystro mynediad heb awdurdod i'r adeilad.

Roedd cofnodion cleifion wedi cael eu storio'n ddiogel o dan glo, ac roedd copi wrth gefn o'r cofnodion electronig yn cael ei wneud bod dydd. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn cymryd rhagofalon priodol i ddiogelu gwybodaeth am y cleifion.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r canfyddiadau a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi’n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn y Goodwin Partnership yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, pan gytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

**Practis:** Goodwin Partnership

**Dyddiad yr Arolygiad:** **17 Mehefin 2015**

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| | Dim byd wedi'i nodi | | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| 10 | Rhaid i'r deintyddion sicrhau eu bod yn cofnodi digon o fanylion ar gyfer opsiynau triniaeth a'r driniaeth a ddarparwyd yng nghofnodion y cleifion.<br><br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1.2; Safonau Iechyd a Gofal, Safon 3.5] | Mae cyfarfod ôl-arolygiad wedi cael ei gynnal er mwyn tynnu sylw at y diffygion, a gwella'r broses o gadw cofnodion ar gyfer opsiynau triniaeth a'r driniaeth a ddarparwyd. Mae cyngor penodol wedi cael ei bwysleisio er mwyn sicrhau bod digon o fanylder yn cael ei roi er mwyn dangos tystiolaeth o gydsyniad.<br><br>Mae ffurflenni FP17DC y GIG a chynlluniau triniaeth yn cael eu cofnodi a'u cadw ar gyfer pob | H J Anthony | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | claf y GIG. | | |
| 11 | Mae'n rhaid i bob deintydd gofnodi’r canfyddiadau clinigol sy’n deillio o radiograffau yng nghofnodion y claf, a hynny ar gyfer pob sgan pelydr-X.<br><br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1.1; Safonau Iechyd a Gofal, Safon 3.5; Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio 1999; Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddiad Meddygol) 2000] | Ni wnaeth archwiliad llawn o'r broses o gadw cofnodion dynnu sylw at y mater hwn, ond mae'r canfyddiadau a'r cyngor wedi cael eu pwysleisio i bob aelod o'r tîm deintyddol mewn cyfarfod practis ôl-arolygiad. | H J Anthony | Cwblhawyd |
| | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | |
| 13 | Mae'n rhaid i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed er mwyn iddynt allu adnabod problemau a phryderon, a chymryd y camau sydd eu hangen.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal, Safon 2.7; Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 8.5] | Mae pob aelod o staff bellach wedi cwblhau cwrs Lefel 1 Deoniaeth Cymru ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, yn ogystal â chwrs Lefel 2 ar-lein ar amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Mae cwrs arall wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Hydref 2015 gyda'r Adran Ddeintyddol Ôl-raddedig.<br><br>Cafwyd gafael ar y manylion cyswllt ar gyfer gwneud atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sy'n | H J Anthony | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | agored i niwed, ac maent wedi cael eu harddangos yn ardal y staff a'u hychwanegu hefyd at y polisi diogelu. | | |
| 14 | Rhaid i weithdrefnau cwyno nodi'n glir y llwybrau uwchgyfeirio gwahanol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat. Dylid ychwanegu gwybodaeth am y cyngor iechyd cymuned at y wybodaeth am wneud cwyn.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal, Safon 6.3; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008; Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pryderon, Cwynion a Threfniadau Unioni Cam) (Cymru) 2011; Gweithio i Wella 2011] | Mae manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned wedi cael eu cynnwys ar y poster cwynion.<br><br>Mae manylion cyswllt AGIC wedi cael eu tynnu o boster gweithdrefn gwyno'r GIG. | H J Anthony | Cwblhawyd |
| 14 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod manylion sylweddau sy'n dod o dan y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd yn cael eu diweddaru.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal 2.1] | Mae adolygiad llawn o'r ffolder Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd wedi cael ei gynnal er mwyn iddi gynnwys unrhyw sylweddau newydd neu sydd wedi cael eu hychwanegu'n ddiweddar. | H J Anthony | Cwblhawyd |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Ansawdd yr Amgylchedd | | | |
| | Dim byd wedi'i nodi | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **HYWEL JOHN ANTHONY**

**Teitl:** **Perchennog y Practis**

**Dyddiad:** **23 GORFFENNAF 2015**